**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 20 Hydref 2009 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Anne Lloyd Jones, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) Y Cyng. David Richardson, Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W. Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales), Mr Keith Stone (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd David Richardson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

**3. CROESO**

Croesawyd Mr Keith Stone, cynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, i'w gyfarfod cyntaf.

4. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 3 Mawrth 2009.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Eitem 4 – Rheoliadau Llongau Drafft**

Adroddodd y Swyddog Morwrol ei fod wedi cyflwyno barn y Pwyllgor Ymgynghorol yn deillio o drafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r ddeddfwriaeth i ymdrin â throseddau o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir. Nodwyd nad oedd Badau Dwr Personol yn cael eu diffinio fel cwch ac y byddai'n amhosibl i'r perchnogion hynny gael eu herlyn o dan y ddeddfawriaeth uchod. Fodd bynnag, nodwyd bod deddfwriaeth ar wahân yn cael trafodaeth i sicrhau bod Badau Dwr Personol, hwylfyrddio, a.y.b. yn cyd-fynd â rheoliadau perthnasol. 'Roedd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ond nid oedd yn bosibl cyflwyno'r manylion ger bron y Pwyllgor Ymgynghorol hwn. Cadarnhawyd bod yr Uned Morwrol yn croesawu ac yn cefnogi'r ddeddfwriaeth.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chytuno â'r uchod.**

## 7. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Morwriaeth
(ii) Materion Cyffredinol yr Harbwr
(iii) Digwyddiadau
(iv) Ystadegau Harbwr
(v) Cyllidebau
(vi) Strwythur Staffio Morwrol
(vii) Gwasanaeth Ysgraff

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) Bod y tywydd anffafriol, yn enwedig ym mis Awst eleni wedi cael effaith ar ddigwyddiadau'r Harbwr a traethau cyfagos ac o ganlyniad wedi cael effaith ar incwm yr Uned Forworl.
(ii) Bu i Dŷ'r Drindod archwilio'r cymhorthion mordwyo yn unol â'r drefn flynyddol gyda'r oll ohonynt mewn cyflwr derbyniol a oedd yn welliant sylweddol mewn cymhariaeth â'r adroddiad negyddol a dderbyniwyd llynedd. Nodwyd bod cost o £1,600 ei angen i gynnal a chadw'r mordwyon a phwysleisiwyd bod hyn yn docyn helaeth o'r gyllideb. Fe fydd angen rhaglen waith cynhwysfawr ar gyfer cynnal a chadw er sicrhau bod y gwaith wedi ei gwblhau cyn cychwyn y tymor nesaf.

Ym marn y Cadeirydd 'roedd y mordwyon yn eu safleoedd priodol'.

(iii) Bod estyniad wedi ei wneud i'r sustem raciau storio cychod gweini a oedd yn caniatáu i llawer mwy o gychod gweini gael eu cadw yn ddiogel yn yr harbwr. Nodwyd bod y raciau ar gyfer cychod gweini'n unig ond deallir bod aelodau eraill yn eu defnyddio ac y dylid tynhau ar y defnydd gyda phob cwch gweini yn cael ei chofrestru ac yn arddangos hawlen cofrestru'r Cyngor. Yn ychwanegol, nododd aelod bod ôl-gerbydau hwylfyrddio yno hefyd a gofynnwyd a oedd y perchnogion hyn yn talu am y defnydd. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol bod trafodaethau wedi digwydd rhwng y perchnogion ac 'roeddynt yn awyddus i dalu a deallir

bod y Clwb Hwylio wedi derbyn anfoneb llynedd ac o 1af Ebrill 2009 ‘roedd ffi wedi ei bennu iddynt.
Braf ydoedd nodi bod y broblem o ymddygiad anghymdeithasol yn y gysgodfa wedi lleihau o ganlyniad i osod goleuadau ar yr ochr orllewinol.

(iv) Fe fyddai aelodau yn ymwybodol o’r cynllun amddiffyn yr arfordir yn Nhywyn ac oherwydd y gwaith arfaethedig, rhagwelir na fydd yn bosibl cyflwyno cais am wobr Faner Las Rhyngwladol yn Nhywyn oherwydd y byddai’n anodd rheoli’r safle. Fodd bynnag, fel rhan o’r cynllun fe fyddir yn addasu un gysgodfa gydag uned yn cael ei ddatblygu at y dyfodol fel canolfan wybodaeth a Swyddfa Traeth.

Yng nghyd-destun Aberdyfi disgwylir cadarnhad gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ganlyniadau ansawdd y dŵr ymdrochi. Adroddwyd bod Cwmni Titan wedi cynnal archwiliad drwy arllwys llifyn i’r leri a’r afon i ganfod llif cerynt yn yr aber gyda’r bwriad obeithiol darganfod tarddiad unrhyw lygredd.

Braf ydoedd i’r Uned Morwrol gydweithio gyda grwpiau lleol i hybu digwyddiadau yn ystod y tymor a diolchwyd ’'r grwpiau lleol am eu parodrwydd a’u hymdrechion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y sylwadau canlynol:

(a) Gwnaed cais gan Gynghorydd Cymuned i’r Cyngor Cymuned dderbyn copi o ganlyniadau’r Asiantaeth yr Amgylchedd pan y’i derbynnir.

(b) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â beth ydoedd criteria ar gyfer cynnal profion, esboniodd y Swyddog Morwrol bod angen iddynt gymryd 20 prawf rhwng Mai a Medi. Y tebygolrwydd ydoedd bod y profion yn cael eu cymryd ar wahanol adegau o’r llanw. Aeth ymlaen i ddweud y bydd newidiadau i’r Ddeddf a rhagwelir y byddai’r profion yn llawer mwy caeth o 2015 ymlaen gyda’r posibilrwydd o golli nifer o wobrau Baner Las Rhyngwladol mewn sawl traeth ac felly fe fyddai’n ofynnol gweithio’n galed i geisio cadw i fyny â’r gofynion. Un o’r gofynion fyddai i awdurdodau lleol osod rhybuddion electroneg fyddai’n golygu costau ychwanegol i awdurdodau.

(c) Addawodd y Swyddog Morwrol wneud ymholiadau ynglŷn â phatrwm a threfn arbrofion ansawdd dwr ymdrochi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

(ch) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â fyddai nwyddau yn cael eu cario i Harbwr Aberdyfi pan fyddai’r gwaith amddiffyn arfordirol Tywyn yn mynd rhagddo, dywedodd y Peiriannydd Grŵp y byddai hynny’n debygol ond ar hyn o bryd nid oedd tendrau ar gyfer y gwaith wedi eu hanfon allan eto.

(v) Yng nghyswllt **ystadegau’r harbwr**, derbyniwyd braslun o’r niferoedd o ddefnyddwyr yr Harbwr a gofrestrwyd drwy nodi cynnydd yn y nifer o Fadau Dwr Personol a fu wedi cofrestru drwy’r Swyddfa ym Mhwllheli eleni gydag ychydig iawn yn cofrestru yn harbwr Aberdyfi. Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn niferoedd cychod pŵer a thynnwyd sylw’r aelodau yn y gymhariaeth ymhob Harbwr a oedd yn adlewyrchiad da o’r niferoedd yn Aberdyfi o ystyried maint yr harbwr.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cynnwys ystadegau Hafan Pwllheli a Doc Fictoria o fewn yr adroddiad i’r dyfodol.

Mynegwyd pryder am ragolygon y byddai niferoedd y cychod yn lleihau ar gyfer flwyddyn nesaf oherwydd bod rhai perchnogion wedi son am eu gwerthu o ganlyniad i'r tywydd anffafriol yn ystod yr haf. Fe wyddys bod un cwch yn symud i Aberystwyth oherwydd diffyg cyfleusterau addas yn Aberdyfi.
Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi darparu, ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi, pecyn croeso ar gyfer cychod ymweld i'r Harbwr a fyddai'n cynnwys y canlynol:

- Pamffled Aberdyfi
- Tablau llanw
- Cyweiriwr llongau
- Gwybodaeth am gyflymder
- Amserlen Bws
- Llythyr croeso gan y Clwb Hwylio
- Llythyr croeso gan yr Harbwr Feistr

ac y byddir yn darparu oddeutu 100 ohonynt ar gyfer y tymor nesaf i'r Harbwr Feistr gyflwyno i berchnogion cychod sy'n ymweld â'r Harbwr. Teimlai sawl aelod nad oedd y Cyngor yn hysbysebu Aberdyfi yn ddigonol hyd yn oed mewn harbyrau eraill. Nid oedd Aberdyfi yn cael cydnabyddiaeth mewn cylchgronau megis "Water Sports Wales", "Pilot Guide" nac ychwaith yn llyfryn y Parc Cenedlaethol o ystyried bod Aberdyfi o fewn y Parc. Byddai cael angorfeydd mwy yn ddefnyddiol fel bo cychod mwy yn gallu cael mynediad i'r Harbwr pe dymunent.

Mewn ymateb, diolchodd y Swyddog Morwrol am yr uchod ac 'roedd yn fater a drafodwyd ar sawl achlysur ond nad oedd wedi dwyn i ffrwyth oherwydd blaenoriaethau eraill gan yr Uned Forwrol. Yn sicr, 'roedd o'r farn bod yn rhaid i'r gwasanaeth fod yn rhagweithiol ac y byddir yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys yr Harbyrau o fewn safle We Eryri.

(vi) Yng nghyswllt **cyllidebau'r** harbwr cyfeiriodd y Swyddog Morwrol at y ffigyrau oedd gerbron gan gymharu cyllidebau'r holl harbyrau. 'Roedd y ffigyrau yn hunan eglurhaol ac fe nodwyd bod Harbwr Aberdyfi wedi cyrraedd targed o £32,449 yn erbyn cyllideb net o £49,630.

Derbyniwyd mân ymholiadau ynglŷn â'r gyllideb megis taliadau am y trydan yng Nghanolfan Dyfi. Esboniodd y Swyddog Morwrol mai un prif fesurydd trydan gafodd ei osod yn y Ganolfan gyda'r Cyngor yn gorfod talu'r bil ac yn adennill y symiau priodol oddi wrth y tenantiaid. Mynegodd yr aelod lleol bod rhai unigolion yn pryderu am hyn o ystyried nad ydynt wedi derbyn bil trydan ers iddynt symud i'r Ganolfan. Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'r anfonebau yn cael eu hanfon allan mor fuan ag sy'n bosibl.

(vii) O ran **strwythur staffio**, oherwydd secondiadau a diswyddiadau mewn Harbyrau eraill a'r ffaith ei bod yn ddistaw dros gyfnod y gaeaf, fe fyddai cyfnod Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn dod i ben ar y 30 Hydref 2009 ond fe fyddai staff Harbwr Feistr Abermaw yn cynorthwyo yn Aberdyfi rhwng 1af Tachwedd a diwedd Mawrth 2010. Fe fydd angen adolygu'r sefyllfa gyda goruchwyliwr traeth yn Nhywyn yn y gwaith peirianyddol sylwedd sydd ar fin cychwyn.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â defnyddio incwm a gynhyrchir o'r maes parcio ar gyfer yr Uned Forwrol, esboniodd y Swyddog Morwrol bod y mater hwn wedi ei godi ar sawl achlysur ac nid oedd unrhyw Reolwr yn mynd i gytuno i ryddhau incwm o'i wasanaeth i wasanaeth arall. Dylid ymfalchïo yn y ffaith bod y maes parcio yn cefnogi'r economi lleol.

Gofynnwyd a fyddai modd i'r goruchwyliwr traeth tymhorol fedru cael rôl ddeublyg drwy gynorthwyo hefo rheoli cychod pŵer ar ddwr yr harbwr. Esboniodd y Swyddog Morwrol y byddai hyn yn anodd oherwydd y gofyn am gymwysterau priodol ac ni fyddir yn ymarferol tynnu swyddog oddi ar y traeth.

Adroddodd y Cadeirydd bod Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, wedi ymweld ag Aberdyfi ym mis Awst eleni pryd y bu iddi gyfarfod ag aelodau o'r Cyngor Cymuned.'Roedd yn ymwybodol nad oedd llawer wedi ei wneud i wella'r cyfleusterau yn yr Harbwr ac fe 'roedd yn gefnogol i syniadau.

(viii) Yng nghyswllt y **gwasanaeth ysgraff**, cyfeiriodd y Swyddog Morwrol at ofynion "Trwydded Cychwyr" ac yn arbennig union ddiffiniad "tywydd ffafriol" ynghyd â'r rhestr o offer diogelwch i'w gario ar fwrdd yr ysgraff. Pwysleisiwyd bod y drwydded ar gyfer hwylio mewn dyfroedd wedi eu categoreiddio mewn ardal benodol. Fe fyddai'n ofynnol i gael trwydded yr MCA mewn dyfroedd tu allan i'r rhai categoredig.

'Roedd yr aelodau o'r farn ei fod i fyny i Gapten y Cwch, mewn ymgynghoriad gyda'r Harbwr Feistr os ydoedd ar gael, benderfynu os ydoedd yn ddiogel i hwylio mewn tywydd anffafriol. Cydnabuwyd mai'r Cyngor fyddai'n trwyddedu'r cwch yn unol ag archwiliadau perthnasol ar dir sych.

Crybwyllodd y Swyddog Morwrol bod aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw wedi trafod y mater uchod ac wedi argymell y dylai gweithredwyr yr ysgraff feddu ar gymhwyster a thrwydded yr MCA gan ofyn i'r Swyddog Morwrol ymchwilio ymhellach i'r mater hwn.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**Bod Harbwr Feistr Aberdyfi yn paratoi angorfa a fydd yn addas ar gyfer cychod mawr sydd yn ymweld a'r harbwr.**

8. **<u>MATERION YCHWANEGOL I'W HYSTYRIED</u>**

**(a) Materion a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Aberdyfi:**

(i) Storio Cychod ar y Cei

Adroddodd y Cynghorydd Dewi Owen y gofynnwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned a oedd angen storio cychod ar y cei dros y gaeaf.

*Mewn ymateb, 'roedd y Swyddog Morwrol o'r farn y byddai'n gostus iawn i berchnogion orfod symud cychod i rywle arall dros y gaeaf yn enwedig wrth ystyried costau craen, cludiant a.y.b. ac y byddai hyn yn sicr o leihau'r niferoedd o gychod yn yr Harbwr. 'Roedd y Gorchymyn Harbwr yn caniatáu i berchnogion aeafu cychod yn yr Harbwr ac 'roedd hyn yn incwm i'r gwasanaeth ac yn bwysig iawn fel rhan o gyllideb yr harbwr. Derbyniwyd nifer o resymau gan sawl aelod o blaid gaeafu ar y cei megis:*

- *Ni ellir fforddio colli incwm i'r harbwr*
- *Ddim yn bosibl symud rhai o'r cychod oherwydd maint y mastiau*

- *bod  llawer o'r cyhoedd yn hoff o fynd i weld perchnogion yn atgyweirio eu cychod ar yr harbwr*
- *bod y gwasanaeth yn greiddiol i'r perchnogion a thrigolion lleol*

**Penderfynwyd: Derbyn y sylwadau uchod a chymeradwyo bod y cychod yn parhau i gael eu storio ar y cei.**

(ii) Dadlwytho anghyfreithlon ar loc Cyngor Gwynedd wrth ymyl mynedfa i'r Iard Gychod

Adroddwyd bod yr Harbwr Feistr wedi gweithio'n ddiwyd yn ystod yr wythnos diwethaf a bod gwelliant ar  y safle yn barod.  'Roedd caniatâd i'r pysgotwyr  gadw eu hoffer yn y lloc ers rhai blynyddoedd bellach gydag allwedd unigol wahanol i bob un ohonynt. Gofynnwyd i gynrychiolydd y pysgotwyr gyfleu dymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol hwn iddynt geisio cadw'r lloc yn daclus.

Gwnaed sylw gan y Cadeirydd bod y Cyngor Cymuned  o'r farn nad oedd Cyngor Gwynedd yn gwneud ymdrech i wella'r Harbwr tra bod Partneriaeth Aberdyfi yn gweithio'n galed dros ben a gofynnwyd a fyddai modd i Gyngor Gwynedd gydweithio hefo'r Bartneriaeth.  Gwnaed sylw pellach gan aelod ei fod yn rhyfeddu nad oedd Cyngor Gwynedd yn cymryd mantais o arian cydgyfeiriant drwy lunio prosiect sylweddol ac i'r harbyrau fanteisio ohono.

*(a) Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig godi'r pwynt uchod hefo'i Reolwr Llinell yn yr Adain Economi a Chymuned fel bo modd trafod y posibilrwydd o gyrraedd yr allbynnau.*

*Derbyniwyd addewid o grant yn y swm o £2.5m ar gyfer Cymru gyfan gan Fforwm y Môr Gwyrdd ac fe fyddai'n ofynnol adnabod prosiectau ar gyfer unrhyw arian a fyddai ar gael. Nodwyd hefyd er bod grantiau penodol ar gael 'roedd yn ofynnol i unrhyw gorff / fudiad fedru cael arian cyfatebol.*

*(b) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â phrisiau pontynau, nododd yr Harbwr Feistr bod Harbwr Feister Abermaw yn edrych i gael prisiau.*

(c) Gofynnwyd a fyddai modd cael gwell system i'r bwiau melyn a'r cadwyni angori.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.**

## 9. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 2 Mawrth 2010.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

**<u>CADEIRYDD</u>**